# Cylchlythyr CCIaCh Tymor yr Haf - Ebrill 2026

**Croeso nôl!**

Gobeithiaf i chi gael Pasg hyfryd a llwyddo I gael egni o'r newydd.

Yn y rhifyn hwn o Gylchlythyr CCIaCh ar gyfer yr Haf, cewch:

Adolygiad o'r Cynllun Cyn-ysgol Cenedlaethol Iach a Chynaliadwy
Padlet CCIaCh
Pecyn Imiwneiddio Cyn-Ysgol ar gyfer staff a theuluoedd - diweddariad
Hyfforddiant bwyd a Maeth ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar gan Agored Cymru
Dyddiadau Ymwybyddiaeth – Tymor yr Haf
Solihull (Togetherness erbyn hyn)
Cynllun Gwên
Lleoliadau Croesawu Bwydo ar y Fron – sut i gofrestru
Safon Aur Gwobr Byrbrydau Iach
Atal a Rheoli Haint (2023 f 2)













# Adolygiad Cenedlaethol o'r Cynllun Cyn-ysgol Cenedlaethol Iach a Chynaliadwy– Arolwg i Leoliadau Blynyddoedd Cynnar

Mae tîm cenedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn adolygu'r Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy.
Os bydd y cyllid ar gyfer y cynllun yn parhau, bydd eich barn yn gwbl werthfawr i helpu i lunio strwythur y cynllun yn y dyfodol.

Gweler isod ddolen i arolwg byr ar gyfer y lleoliadau hynny sy'n ymwneud â'r cynllun.

**Mae'r arolwg ar agor tan 8 Mai.**

**The survey is open till the 8th May.**

Cymraeg - Cynllun Cynaliadwy ac Iach Cyn-ysgol – Arolwg Lleoliad Blynyddoedd Cynnar – Fill out form

English - Healthy Sustainable Pre School Scheme - Early Years Setting Survey – Fill out form



# Padlet CCIaCh


Cyfle i ddod o hyd i bopeth sy’n ymwneud â’r Cynllun Cyn Ysgol Iach a Chynaliadwy mewn un man. Mae'r padlet wedi'i rannu i bob pwnc iechyd (Maeth ac Iechyd y Geg, Gweithgarwch Corfforol a Chwarae Egnïol, Llesiant Emosiynol a Meddyliol yn cynnwys Perthnasoedd, yr Amgylchedd, Hylendid, Diogelwch ac Iechyd a Lles yn y Gweithle, Safon Aur Gwobr Byrbrydau Iach ac Adnoddau i Rieni.

Mae pob adran yn cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth dibynadwy sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Cliciwch ar y ddolen isod:

## Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy

Rydym yn gweithio ar fersiwn Gymraeg, a byddwn yn ei rhannu cyn gynted ag y bydd yn barod.

Gadewch i mi wybod eich barn a rhannwch unrhyw adborth.






## Pecyn Adnoddau Imiwneiddio Cyn-ysgol (Iechyd Cyhoeddus Cymru)

Mae llythyrau templed cyn-ysgol i rieni a gwarcheidwaid wedi eu diweddaru i adlewyrchu newidiadau i'r amserlen imiwneiddio reolaidd i blant yng Nghymru ers mis Ionawr 2026.

Mae'r pecyn yn cynnwys:
Llythyr rheolwr cyn-ysgol Saesneg | Cymraeg
Mae'r daflen wybodaeth hon i reolwyr, yn cysylltu â'r llythyr i rieni a gwarcheidwaid, y llythyr i'r staff a chysylltiadau cyn-ysgol.

Rhestr cysylltiadau pecyn adnoddau cyn-ysgol Saesneg | Cymraeg
Llythyr templed i rieni cyn-ysgol i'w argraffu Saesneg | Cymraeg
Llythyr templed i staff cyn-ysgol i'w argraffu Saesneg | Cymraeg
Llythyr templed digidol i staff cyn-ysgol Saesneg | Cymraeg

Newidiadau i Amserlen Imiwneiddio Arferol i'w harddangos a'i rhannu gyda rhieni. Amserlenni imiwneiddio arferol i Gymru – Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae rhagor o wybodaeth ynghlwm, gan gynnwys posteri dwyieithog gan Iechyd Cyhoeddus Cymru – pryd i gael eich brechiadau.



## Hyfforddiant Bwyd a Maeth i’r Blynyddoedd Cynnar gan Agored Cymru:

### 2026

- 14 a 21 Mai 2026- Blaenau Gwent (Ystafell Tylluan Canolfan Integredig i Blant Y Blaenau).
- 23 a 30 Mehefin 2026- Caerffili
- 16 a 23 Medi 2026- Sir Fynwy
- 8 a15 Hydref 2026- Torfaen (Canolfan Ddinesig Pont-y-pŵl - Ystafell Pont-y-pŵl Fawr).
- 10 a 17 Tachwedd 2026- Casnewydd

### 2027

- 13 a 20 Ionawr 2027- Blaenau Gwent (Ystafell Tylluan Canolfan Integredig i Blant Y Blaenau).
- 11 a 18 Chwefror 2027- Caerffili
- 9 a 16 Mawrth 2027- Casnewydd

***I gadw lle ar unrhyw rhai o'r dyddiadau uchod, sganiwch y cod QR neu dilynwch y ddolen isod:***

https://outlook.office.com/book/EarlyyearsBookingSystem@wales.nhs.uk/?ismsaljsauthenabled



## Dyddiadau Ymwybyddiaeth (Gweler yr atodiadau ychwanegol yn yr e-byst):

**Achrediad Sun Safe** https://www.sunsafenurseries.co.uk/

*Wythnos Diogelwch yn yr Haul 12 – 18 Mai*



**Wythnos Cerdded i'r Ysgol**
*18 – 22 Mai Wythnos Cerdded i'r Ysgol/Meithrin*

https://www.livingstreets.org.uk/walk-to-school/primary-schools/walk-to-school-week/



*Diolch i Jo Lane am y llun hwn o'i thaith i'r ysgol, ar hyd Llwybr Diogel i'r Ysgol.*

Os ydych wedi cofrestru gyda'r Cynllun Cyn-Ysgol Iach a Chynaliadwy, byddwch wedi cael eich pecynnau Strydoedd Byw y llynedd. Byddaf yn anfon e-bost yn cynnwys mwy o adnoddau yn nes at yr amser.



# Wythnos Diogelwch Plant

**Cofiwch y dyddiad: Mae’n Wythnos Diogelwch Plant 2026 rhwng dydd Llun 1af a dydd Sul 7 Mehefin.**

Wythnos Diogelwch Plant yw ymgyrch addysg gymunedol flynyddol yr Ymddiriedolaeth Atal Damweiniau Ymhlith Plant. Mae’n sbardun i gynnal miloedd o sgyrsiau a gweithgareddau diogelwch ledled y DU.

Maent yn helpu teuluoedd i feithrin hyder a sgiliau wrth reoli'r risgiau go iawn i ddiogelwch plant.
Dylai pob plentyn gael y rhyddid i dyfu a dysgu, yn ddiogel rhag niwed difrifol.

*Peidiwch â cholli'r cyfle. cofrestrwch nawr i gael y diweddaraf.*

https://capt.org.uk/pages/category/child-safety-week/


Taflenni ffeithiau defnyddiol iawn i rieni ar gael yma Pecyn Diogelwch Plant i Rieni| Ymddiriedolaeth Atal Damweiniau Ymhlith Plant

**Mynnwch eich adnoddau ar gyfer 2026 yma**



# Solihull – sydd erbyn hyn wedi cael ei ail-enwi'r Togetherness

https://togetherness.co.uk/learn/


Health Visiting Services ABUHB
26 February ·

InOurPlace has now become Togetherness. Head to the new website and enter the code GEYAP for free access (link in the comments)

Access free learning resources on parenting, brain development, emotional wellbeing and much more, for healthier relationships and happier lives!




Ewch i Wefan Togetherness: https://buff.ly/rylsX83 a defnyddio cod **GEYAP** i gael hyd i'r llwybrau dysgu am ddim!

Yma fe gewch ystod eang o adnoddau i'w rhannu; cyrsiau hyfforddi, gwybodaeth ac adnoddau i staff a theuluoedd y Blynyddoedd Cynnar.



# Cynllun Gwên

## Adroddiad - Uchafbwyntiau Allweddol 2024–2025

Mae'r data cenedlaethol diweddaraf yn dangos bod **32.4% o blant 5 oed yng Nghymru wedi dioddef o bydredd dannedd.** Mae plant sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig ddwywaith mor debygol o gael eu heffeithio, a gall effeithio ar hyd at *deirgwaith* nifer y dannedd.
Mae rhaglen **Cynllun Gwên** yn parhau i chwarae rôl hollbwysig o ran gwella iechyd y geg ymhlith plant, a lleihau'r anghydraddoldebau hyn. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cyflwynwyd rhaglen hyfforddiant iechyd y geg i fwy na **1,800 o weithwyr proffesiynol**, cefnogwyd **60,586 o blant** trwy eu goruchwylio'n brwsio'u dannedd mewn meithrinfeydd ac ysgolion, a dosbarthwyd **164,678 o becynnau brwsio dannedd yn y cartref** i annog brwsio dannedd ddwywaith y dydd. Yn ogystal, fe wnaeth **677 lleoliad** gynnal sesiynau farneisio'r dannedd â fflworid. Fe wnaeth dros **42,800 o blant** gael o leiaf un taeniad.

Diolch i'r holl ysgolion, lleoliadau blynyddoedd cynnar a phartneriaid am eich ymrwymiad parhaus i gefnogi iechyd y geg ymhlith plant ledled Cymru.

Cynllun Gwên - Iechyd Cyhoeddus Cymru  Gweler yr atodiadau yn yr e-bost i ddarllen yr adroddiad llawn.



# Cynllun Croesawu Bwydo ar y Fron

## <u>Cofrestrwch i ddod yn Lleoliad Sy'n Croesawu Bwydo ar y Fron</u>




Yn rhan o Gynllun Gweithredu Bwydo ar y Fron Gwent a Chymru Gyfan i hyrwyddo, diogelu a chefnogi hawl rhiant i fwydo ar y fron yn gyhoeddus, ac i wneud bwydo ar y fron yn fwy derbyniol fel gweithgaredd normal, mae lleoliadau'n cael eu hannog i ddod yn safleoedd sy'n croesawu bwydo ar y fron.

Mae'r broses o ddod yn lleoliad sy'n croesawu bwydo ar y fron yn hawdd iawn. Ar ôl cofrestru gan ddefnyddio'r ffurflen isod, cewch sticer i'w roi ar y ffenest a pholisi i'w arddangos, a gwybodaeth i'w darllen a'i rhannu ag unrhyw aelodau eraill o staff.

Mae llawer o ysgolion a lleoliadau gofal plant wedi cofrestru yn barod. I gofrestru ar gyfer y Cynllun Croesawu Bwydo ar y Fron, cliciwch ar y ddolen isod:




https://forms.office.com/e/dNXxTNspNC



## Safon Aur Gwobr Byrbrydau Iach (Lleoliadau CCIaCH)

Mae dros hanner Lleoliadau Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy Torfaen wedi llwyddo i ennill Safon Aur Gwent ar gyfer Gwobr Byrbrydau Iach, gan gydnabod byrbrydau o ansawdd da a'u dathlu. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch neu os hoffech chi gofrestru ar gyfer y wobr, cysylltwch â Ruth, ruth.harris@torfaen.gov.uk







Gair i'ch atgoffa am y diweddariadau i'r Canllawiau Arfer Gorau ar gyfer Bwyd a Maeth i Leoliadau Gofal Plant – dyma'r dolenni:
Food and nutrition guidance for childcare providers | GOV.WALES

Canllawiau bwyd a maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant | LLYW.CYMRU
Yn y dolenni uchod mae yna adrannau am Fwydo Babanod yn eich Gofal a Chyflwyno Bwydydd Solet.



# Canllawiau i Lleoliadau Gofal Plant, Cyn-ysgol ac Addysgol

Diolch i bawb a ymatebodd ynglŷn â'r Offeryn Archwilio Atal a Rheoli Heintiau yr ydych yn ei ddefnyddio.

Cyhoeddwyd fersiwn ddiweddaraf Diogelu Iechyd mewn Lleoliadau Plant a Phobl Ifanc, gan gynnwys Addysg, ac mae ar gael yma. **DYMA'R UN MWYAF DIWEDDAR A'R UN Y DYLECH FOD YN EI DDEFNYDDIO:**

Cyngor ac arweiniad ar gyfer lleoliadau gofal plant, cyn ysgol ac addysgol – Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)

https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/gwasanaeth-ymateb-aciwt-cymru-gyfan-aware-y-tim-diogelu-iechyd/cyngor-ac-arweiniad-ar-gyfer-lleoliadau-gofal-plant-cyn-ysgol-ac-addysgol/

***Yma hefyd, cewch hyd i'r canlynol sydd wedi eu diweddaru:***

Cyfnodau Gwahardd ar gyfer Heintiau Cyffredin a'r Camau Nesaf, Offeryn Archwilio Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan, Diogelu Iechyd mewn Lleoliadau Plant a Phobl Ifanc, gan gynnwys Addysg, Enghraifft o Drefn Lanhau, Enghraifft o Restr Wirio o Fesurau i'w defnyddio yn ystod brigiad ac Enghraifft o Gofnod Brigiad o Achosion.

Offeryn Archwilio Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant ac Addysg – **Dylai'r Offeryn Archwilio gael ei gwblhau'n flynyddol a'i adolygu bob tymor.**

***Mae'r dogfennau ynghlwm.***






Mae negeseuon o ffynonellau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yr ydym yn ymddiried ynddynt, ar gael ar dudalen Facebook Cynllun Cyn-Ysgol Iach a Chynaliadwy i'w rhannu â rhieni a'r gymuned leol:

https://www.facebook.com/torfaenhspss/

